**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**ADRODDIAD I'R BWRDD RHEOLAETH CORFFORAETHOL**

**16 Rhagfyr 2022**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD**

# STRATEGAETH PRESENOLDEB YN YR YSGOL 2023-2025

## 1. Diben yr adroddiad

1.1 Diben yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth ffurfiol a mabwysiadu Strategaeth Bresenoldeb yn yr Ysgol ar gyfer 2023-2025. Atodwyd y strategaeth ddiwygiedig yn Atodiad 1.

## 2. Cysylltiad ag amcanion llesiant corfforaethol/blaenoriaethau corfforaethol eraill

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn gymorth i gyflawni'r amcanion llesiant corfforaethol canlynol o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**:

- **Cefnogi economi gynaliadwy, lwyddiannus -** cymryd camau i wneud y fwrdeistref sirol yn lle ardderchog i wneud busnes, i bobl fyw, gweithio ac astudio ynddi ac ymweld â hi, ac i sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar fagu'r sgiliau, y cymwysterau a'r amcanion ar gyfer pawb yn y fwrdeistref sirol.

- **Helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iach a chydnerth** - cymryd camau i leihau neu atal pobl rhag dod yn fregus neu'n ddibynnol ar y Cyngor a'i wasanaethau. Cefnogi unigolion a chymunedau i feithrin gwytnwch, a'u galluogi i ddatblygu datrysiadau er mwyn byw bywydau heini, iach ac annibynnol.

- **Defnyddio adnoddau yn fwy doeth** – sicrhau bod ein holl adnoddau (ariannol, ffisegol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, a chefnogi'r gwaith o greu adnoddau ar draws y gymuned a all helpu i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor.

## 3. Cefndir

3.1 Mae cysylltiad clir rhwng cyflawniad addysgiadol da a lefelau presenoldeb uchel. Gall presenoldeb gwael a chyrraedd yr ysgol yn hwyr gael effaith niweidiol ar allu plentyn i ddysgu ac mae'n cael effaith sylweddol ar les plentyn. Mae hyd yn oed gostyngiad cymharol fach mewn presenoldeb wedi cael ei brofi i gael effaith negyddol ar ddeilliannau diwedd Cyfnod Allweddol 4.

3.2 Cafodd strategaeth presenoldeb ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei chymeradwyo a'i mabwysiadu ddiwethaf gan y Cabinet yn 2018 ac mae wedi ei

hadolygu a'i diweddaru i gymryd i ystyriaeth canllawiau ac arferion gorau cenedlaethol cyfredol.

## 4. Sefyllfa/cynnig cyfredol

4.1 Mae pandemig COVID-19 a'r modd yr amharwyd ar addysg i blant ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cael effaith negyddol ar lefelau presenoldeb yn yr ysgol.

4.2 Mae presenoldeb yn yr ysgol wastad wedi bod yn flaenoriaeth uchel ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, rydym wedi gweld gostyngiad mewn lefelau presenoldeb. Mae niferoedd mawr o ddisgyblion wedi cael eu heffeithio gan y pandemig oherwydd diffyg trefn ddyddiol yr effeithiwyd arno gan y rheidrwydd i gau'r ysgol a dysgu o bell. Mae nifer o ddisgyblion bellach hefyd yn arddangos problemau gyda gor-bryder a lles. Mae mynd i'r afael gyda'r problemau hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial ym mhob agwedd o fywyd, gan gynnwys llwyddo i gael addysg dda.

4.3 Mae data presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer y cyfnodau 2018-2019 a 2021-2022 wedi eu huwcholeuo yn y tabl isod.

| | **2018-2019** | **2021-2022** |
|---|---|---|
| **Presenoldeb Ysgolion Cynradd** | 94.8% | 90.1%* |
| **Presenoldeb Ysgolion Uwchradd** | 94.1% | 86.5%* |

* *Nid yw'r data cenedlaethol ar gyfer 2019-2020 a 2020-2021 ar gael oherwydd y pandemig.*

4.4 Fel y dangosir yn y tabl uchod, mae lefelau presenoldeb disgyblion ar draws ysgolion cynradd wedi gostwng o 4.7 pwynt canran o 2018-2019 hyd 2021-2022.

4.5 Mae gostyngiad mwy sylweddol (7.6 pwynt canran) wedi'i gofnodi ar gyfer presenoldeb yn yr ysgolion uwchradd ar gyfer yr un cyfnod.

4.6 Tra mae'r gostyngiadau yma yn achos pryder, maent yn adlewyrchu sefyllfa genedlaethol sydd yn amlwg wedi cael ei heffeithio'n negyddol gan y pandemig.

4.7 Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg, ysgolion a'r adnodd Cymorth Cynnar ehangach, wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth agos er mwyn mynd i'r afael gyda'r lleihad mewn lefelau presenoldeb. Mae rhai o'r dulliau a'r ymyriadau wedi'u hamlinellu isod:

- Mae swyddogion lle addysg yn cefnogi ac yn cynghori ysgolion ynghylch presenoldeb gan gynnwys sicrhau bod ffwythiannau cyfreithiol statudol yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn briodol.

- Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i gadeirio gan y Rheolwr Grŵp (Cymorth i Deuluoedd) gyda phrifathrawon, swyddogion lles addysg a rhanddeiliaid eraill er mwyn adolygu strategaeth bresenoldeb yr awdurdod lleol.,

- Dylai archwiliadau presenoldeb ysgol gael eu cwblhau gan yr holl ysgolion er mwyn dangos tystiolaeth o arfer da a meysydd i'w datblygu.

- Patrolau triwantiaeth i gael eu rhoi ar waith gyda'r Heddlu yn ystod tymor academaidd 2022-2023.

- Mae ymgyrch farchnata'n cael ei datblygu er mwyn sicrhau bod neges gyson yn cael ei chyfleu i rieni/gwarcheidwaid ynghylch pwysigrwydd mynychu'r ysgol.

- Annog 'system cyfaill' ar gyfer disgyblion yn yr holl ysgolion er mwyn hyrwyddo hyder a lles.

- Ysgolion i ailgyflwyno system 'Callio' Consortiwm Canolbarth y De o lythyron i rieni er mwyn sicrhau ymateb graddedig cyson er mwyn tynnu sylw at lefelau presenoldeb a'u gwella.

- Parhau gyda chyfarfodydd rheolaidd Llywodraeth Cymru a Chonsortiwm Canolbarth y De.

## 5. Yr effaith ar fframwaith polisi a rheolau gweithdrefnau

5.1. Does dim effaith ar fframwaith polisi a rheolau gweithdrefnau

## 6. Goblygiadau Deddf Gydraddoldeb 2010

6.1 Mae'r nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu hadnabod o fewn y Ddeddf Gydraddoldeb, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, a thraweffaith defnyddio'r Gymraeg wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r adroddiad hwn. Fel corff cyhoeddus yng Nghymru mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried traweffaith penderfyniadau strategol, megis datblygu neu adolygu polisïau, strategaethau, gwasanaethau a ffwythiannau. Mae hwn yn adroddiad gwybodaeth, felly nid yw'n angenrheidiol cynnal asesiad Traweffaith Cydraddoldeb wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn. Ystyrir na fydd unrhyw draweffeithiau cydraddoldeb sylweddol ac annerbyniol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 7. Goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

7.1 Rhestrir crynodeb o asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 isod:

| | |
|---|---|
| **Hirdymor** | Bydd presenoldeb da yn yr ysgol yn gwella deilliannau mwy hirdymor i blant, pobl ifanc a theuluoedd. |
| **Atal** | Mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn parhau o fewn yr ysgol er mwyn cyrraedd eu potensial yn llawn. |
| **Integreiddio** | Mae'r gwasanaeth yn bartneriaeth aml-asiantaeth lle mae integreiddiad yn allweddol ar gyfer trefniadau darparu gwasanaeth da. |

| | |
|---|---|
| **Cydweithio** | Mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd er budd gorau'r disgyblion. |
| **Cymryd rhan** | Mae llais y disgybl yn hanfod ar gyfer lefelau presenoldeb da ar draws yr holl ysgolion. |

## 8. Goblygiadau Ariannol

8.1 Bydd y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith o fewn yr adnoddau presennol. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau diweddar yn y maes hwn, mae gwasgfa ar y gyllideb wedi'i chyflwyno yn rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023-2024 er mwyn cefnogi'r cynydd yn nifer y swyddogion lles addysg i gefnogi'r agenda hon. Os nad yw'r wasgfa ar y gyllideb yn llwyddiannus, bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd chwilio am fecanwaith ariannu amgen er mwyn ariannu'r swyddi ychwanegol yma.

## 9. Argymhelliad/argymhellion

9.1 Rydym yn argymell bod y Bwrdd Rheolaeth Gorfforaethol yn:

- cymeradwyo'r strategaeth presenoldeb ysgol ar gyfer 2023-2025 fel y'i manylir yn Atodiad 2 yn ffurfiol ac yn ei mabwysiadu.

**Lindsay Harvey**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd**
**12 Rhagfyr 2022**

**Swyddog cyswllt:** Mark Lewis
Rheolwr Grŵp – Cymorth i Deuluoedd

**Ffôn:** (01656) 642679

**E-bost:** mark.lewis@bridgend.gov.uk

**Cyfeiriad post:** Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

**Dogfennau cefndirol:**

Dim

**Atodiad 1**

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Strategaeth Presenoldeb yn yr Ysgol 2023 – 2025

## ‘Mae Llwyddiant yn Dechrau yn yr Ysgol’

## 1. Gweledigaeth a blaenoriaethau

1.1. Mae Cynllun Corfforaethol pum mlynedd 2018-2023 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn adnabod ein gweledigaeth o: 'Un Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau'.

1.2. Yr amcanion llesiant rydym am eu cyflawni yw:

- Cefnogi economi lwyddiannus a chynaliadwy;
- Helpu pobl a chymunedau i ddod yn fwy iach ac yn fwy hunan-ddibynnol; a
- Defnyddio adnoddau mewn ffyrdd mwy doeth.

1.3. Er mwyn cefnogi'r amcanion llesiant byddwn yn sicrhau ein bod yn gwella deilliannau dysgwyr drwy ysbrydoli a chefnogi plant, oedolion a theuluoedd i gyflawni deilliannau gwell sy'n arwain at gymunedau ffyniannus, iach, diogel a hapus.

1.4. Rydym yn credu bod addysg dda i'n holl blant yn sail i'n hamcanion llesiant. Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac ar amser yn yrwyr allweddol o ran sicrhau bod plant o oedran ysgol yn ymgysylltu'n llawn gydag addysg. Bydd yr awdurdod lleol a'r ysgolion yn cymryd y camau angenrheidiol er mwyn gwella presenoldeb yn yr ysgol a sicrhau bod anghenion llesiant plant o oedran ysgol yn cael sylw. Mae swyddogion lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio ar y cyd gydag asiantaethau partner er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau i ddysgu a chynhwysiant cymdeithasol, a hefyd i hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol.

## 2. Cyflwyniad

2.1. Mae'r awdurdod lleol yn cynnwys 48 o ysgolion cynradd, gan gynnwys dwy ysgol fabanod, ac ysgol iau, pum ysgol ffydd a phedair ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae yna naw ysgol uwchradd gan gynnwys un ysgol ffydd ac un ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae yna ddwy ysgol arbennig ac uned cyfeirio disgyblion.

2.2. Lle mae plant mewn addysgu ffurfiol, mae lefelau uchel o bresenoldeb ysgol yn angenrheidiol ar gyfer plant er mwyn sicrhau eu bod yn ffynnu'n academaidd ac yn gymdeithasol. Mae plant sy'n colli'r ysgol am resymau anawdurdodedig yn aml yn colli rhannau hanfodol o'r cwricwlwm. Gall hyn hefyd gynyddu'r perygl o ddisgyn y tu ôl a pheidio â chymryd rhan. Gall plant hefyd ddod yn ynysig yn gymdeithasol pan maent yn colli allan ar brofiadau dysgu a chymdeithasol a rennir gyda'u cyfoedion yn yr ysgol yn rheolaidd. Gan hynny, mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau bod plant yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn gwneud y gorau o'u cyfleoedd dysgu drwy fynychu'n rheolaidd. Mae mynediad at addysg yn cael ei adnabod o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn erthyglau 28 a 29.

## 3. Y cyd-destun cenedlaethol

3.1. Mae presenoldeb yn ffactor allweddol wrth sicrhau bod gan bob disgybl y cyfle gorau posib mewn bywyd a sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.

3.2. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yna gysylltiad clir rhwng cyflawniad addysgiadol da a lefelau presenoldeb uchel. Gall presenoldeb gwael a chyrraedd yr ysgol yn hwyr gael effaith niweidiol ar allu plentyn i ddysgu ac mae'n cael effaith sylweddol ar les

plentyn. Rydym yn ystyried bod presenoldeb cadarnhaol yn yr ysgol yn allweddol ar gyfer codi safonau cyflawniad.

3.3. Mae Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan (2011) yn adnodd sy'n cefnogi ac yn amlinellu arfer gorau ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys swyddogion lles addysg a staff ysgol. Mae'r ddogfen yn dangos strategaethau er mwyn gwella presenoldeb disgyblion ac yn cynnig arfer cyson.

## 4. Y cyd-destun lleol

4.1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i gynnal lefelau presenoldeb uchel ymhlith disgyblion yn gyson mewn ysgolion ac yn cydnabod bod gwella presenoldeb yn ffactor allweddol wrth gynnal safonau perfformiad a chyflawniad disgyblion. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymdrechu i sicrhau cyfle addysgol cyfartal i bob disgybl.

4.2. Mae cyfraddau presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer yr awdurdod lleol gydag ysgolion a gwasanaethau ychwanegol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r flaenoriaeth hon, sy'n sicrhau gwelliant parhaus.

4.3. Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn hanfodol i ddisgyblion. Mae methiant disgyblion i fynychu'r ysgol yn cynyddu'r risg o adael ysgol heb gymwysterau ac yn caniatáu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gael eu tynnu i mewn i droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## 5. Prif egwyddorion

5.1. Mae ein strategaeth bresenoldeb wedi cael ei datblygu gyda'r egwyddorion allweddol canlynol yn rhan ganolog ohoni:

- mae cyflawniadau a chynnydd disgyblion yn cael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan bresenoldeb;
- gall presenoldeb gwael arwain at leihad mewn cymhelliant ac ymwneud gydag addysg;
- y potensial ar gyfer rhai nad ydynt yn mynychu i beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- mae ysgolion yn chwarae rhan hanfodol gyda phresenoldeb ac mae gweithredoedd staff ysgolion yn ffactorau arwyddocaol wrth ddylanwadu ar ymddygiadau ac agweddau disgyblion, yn arbennig felly rhai sy'n gysylltiedig gyda phresenoldeb.
- dylai disgyblion deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod eu presenoldeb yn cael ei werthfawrogi a'i wobrwyo;
- ein man cychwyn yw rhagdybiaeth bod y rhan fwyaf o ddisgyblion eisiau mynychu'r ysgol i ddysgu ac i gyflawni eu potensial yn llawn ond nad yw hi wastad yn bosib iddynt wneud hynny am resymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth;

- mae'r ysgol yn chwarae rhan hanfodol wrth adnabod rhwystrau i addysg yn gynnar ar gyfer pob disgybl;
- mae gan bob disgybl yr hawl i gael mynediad teg at addysg dda ac ni ddylent gael eu hamddifadu o'r cyfle drwy beidio â mynychu'r ysgol;
- mae gan ddisgyblion, rhieni a gofalwyr gyfrifoldebau eglur er mwyn sicrhau presenoldeb da (a dylai'r neges hon gael ei gwneud yn eglur iddynt gan yr ysgol drwy gyfathrebu da);
- mae disgyblion yn fwy tebygol o ymateb yn bositif, i ddysgu ac i fynychu pan maent yn cael eu trin yn deg, yn cael eu gwobrwyo a'u cefnogi;
- mae gan ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, a gweithdrefnau ar gyfer cofrestru ddylanwad sylweddol ar agweddau a phresenoldeb disgyblion.
- mae prydlondeb a systemau cadarn ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn brydlon yn ffactor arwyddocaol wrth hyrwyddo presenoldeb;
- mae disgyblion yn llai tebygol o fod yn fynychwyr gwael pan mae eu presenoldeb yn cael ei fonitro a'i ddilyn i fyny'n gyflym;
- mae systemau cadarn ar gyfer adnabod ac ymateb i anghenion rhesymau gwahanol ddisgyblion dros fod yn absennol yn hanfodol;
- mae ymgysylltiad disgyblion wrth sicrhau presenoldeb da yn bwysig (mae disgyblion yn fwy tebygol o ymateb yn fwy positif pan ofynnir am eu barn, eu bod yn cael eu gwrando arnynt ac mae yna ymateb priodol i'w hanghenion a'u barn);
- mae ystod o asiantaethau cymorth ar gael i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd gyda phresenoldeb; ac
- mae'r bartneriaeth weithio agos rhwng y Gwasanaeth Lles Addysg, ysgolion a theuluoedd yn allweddol er mwyn sicrhau cyfraddau lles a phresenoldeb.

## 6. Y cyd-destun cyfreithiol

6.1. Tra mae'r rhiant yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn mynychu eu hysgol gofrestredig yn rheolaidd, lle mae problemau mynychu ysgol yn digwydd, yr hyn sy'n allweddol ar gyfer datrys y problemau hyn yw ymgysylltu gyda'r plentyn drwy weithio cydweithredol rhwng y rhiant, yr ysgol a'r awdurdod lleol. Mae yna, fodd bynnag, fframwaith gyfreithio ar gyfer rôl yr ysgol a'r awdurdod lleol sy'n gosod allan eu cyfrifoldebau yn y maes hwn.

6.2. Mae Rheoliad Addysg (Cofrestru Disgyblion) Cymru 2010 yn gosod rheidrwydd cyfreithiol ar ysgolion i gynnal cofrestr mynediad (ac eithrio mewn achosion ysgol lle mae'r disgyblion i gyd yn rhai preswyl, cofrestr presenoldeb).

6.3. Mae adran 7 o'r Ddeddf uchod yn datgan:

*O dan adran 7 Deddf Addysg (1996), bod rhieni'n gyfrifol am*

*wneud yn siŵr bod eu plentyn sydd o oedran ysgol gorfodol (5 i 16), yn derbyn addysg amser llawn effeithlon, sy'n addas i oedran, gallu a galluoedd y plentyn, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (SEN) y gallai fod gan y plentyn. Gall hyn fod yn*
*fynychu ysgol yn rheolaidd neu'n cael ei addysgu fel arall gan yr awdurdod lleol; mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i rieni addysgu eu plant gartref.*

6.4. Mae adran 444 yn datgan bod:

*Rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol ac sy'n methu â mynychu'n rheolaidd yn euog o drosedd y gellir cosbi o'i herwydd yn ôl y gyfraith.*

*Nid oes trosedd yn cael ei chyflawni os gellir dangos bod:*

- *y disgybl wedi bod yn absennol drwy gael ei esgusodi (absenoldeb wedi'i awdurdodi);*
- *y disgybl yn sâl neu wedi ei rwystro rhag mynychu'r ysgol gan unrhyw achos nad oedd modd ei osgoi;*
- *yr absenoldeb wedi digwydd ar ddiwrnod a neilltuwyd oherwydd rhesymau crefyddol gan y corff crefyddol y mae'r disgybl/rhiant yn perthyn iddo;*
- *dalgylch ysgol y disgybl heb fod o fewn y pellter cerdded a rhagnodir o gartref y plentyn ac nad oes unrhyw drefniadau cludiant addas wedi eu gwneud gan yr awdurdod lleol;*
- *y disgybl heb gofrestru gydag ysgol ac mae'r rhieni'n darparu addysg addas; a*
- *bod gwaith neu fusnes y rhieni'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt deithio o le i le.*

6.5. Mae adran 437 Deddf Addysg 1996 yn datgan:

*Os yw'n ymddangos i awdurdod lleol bod plentyn o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal heb fod yn derbyn addysg briodol, naill ai drwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu rywle arall, yna byddant yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant eu boddhau o fewn y cyfnod y manylir arno yn yr hysbysiad bod y plentyn yn derbyn addysg o'r fath."*

*Lle bo rhiant y rhoddwyd yr hysbysiad iddo yn methu â boddhau'r awdurdod lleol, o fewn y cyfnod y manylir arno yn yr hysbysiad, bod y plentyn yn derbyn addysg briodol, ac ym marn yr awdurdod lleol, ei bod yn hanfodol y dylai'r plentyn fynychu ysgol, bydd yr awdurdod yn cyflwyno "gorchymyn presenoldeb ysgol" yn y fath fodd ag y gellir ei ragnodi, yn ei gwneud hi'n ofynnol i achosi i'r plentyn ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a enwyd yn y drefn honno.*

6.6. Mae'n ofynnol i rieni roi gwybod i ysgolion yn ysgrifenedig eu bod yn addysgu eu plant gartref, a bod rhaid i enw eu plentyn gael ei dynnu oddi ar y gofrestr mynediad.

6.7. O dan adran 436A Deddf Addysg 1996, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sefydlu hunaniaethau plant sy'n byw yn eich ardal ac nad ydynt yn derbyn 'addysg briodol'.

6.8. Mae'n rhaid i rieni foddhau eu cyfrifoldeb o dan yr adran hon drwy ddarparu addysg effeithiol, lawn amser, sy'n addas ar gyfer y plentyn, yn rhywle gwahanol i ysgol.

6.9. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn credu ar gyfer y rhan fwyaf o blant y bydd eu hanghenion addysgiadol yn cael eu cwrdd orau o fewn y system ysgol, a lle mai dyma'r llwybr sydd wedi'i ddewis gan rieni, bod hyn angen ymrwymiad i fynychu ysgol yn rheolaidd.

## 7. Rôl yr awdurdod lleol

7.1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i wella presenoldeb mewn ysgolion a lles drwy gefnogi ysgolion gyda'r polisïau ac arweiniad perthnasol. Mae'r awdurdod lleol yn cynnwys tîm bychan o swyddogion lles addysg sydd yn gweithio'n bennaf i ddarparu cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol a gwasanaethau eraill. Mae'r broses hon yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gydag ysgolion cefnogi teuluoedd a disgyblion, a hefyd cynrychioli'r awdurdod lleol o fewn y cyd-destun cyfreithiol lle mae hynny'n angenrheidiol.

7.2. Tra mai'r prif ffocws wastad yw adeiladu perthnasoedd cadarn, positif gyda rhieni ac ysgolion, bydd yr awdurdod yn bwrw ymlaen i erlyn lle mae'n ystyried bod hyn yn briodol. Ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref o ddewis, os nad yw'r awdurdod lleol wedi'i foddhau bod y plentyn yn derbyn addysg briodol, gall yr awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad gorchymyn presenoldeb ysgol i'r rhiant/rhieni/gwarcheidwad/gwarcheidwaid sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt foddhau'r awdurdod lleol o fewn y cyfnod y manylir arno yn yr hysbysiad bod y plentyn yn derbyn addysg o'r fath.

7.3. Bydd rhieni a gofalwyr yn cael eu hannog i weithio'n agos gyda swyddogion lles addysg a gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, lle nad oes unrhyw ymgysylltiad a/neu dim gwelliant o ran presenoldeb, bydd yr awdurdod lleol yn dilyn i fyny erlyniadau o fewn y fframwaith cyfreithiol.

7.4. Y pwrpas yw gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc sydd ar goll o fyd addysg yn cael eu hadnabod yn gyflym a bod systemau monitro effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i'w darparu gydag 'addysg briodol' unwaith y doir o hyd iddo. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i blant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol, ac nad ydynt yn derbyn addysg briodol yn rhywle arall ar wahân i fod mewn ysgol. Nid yw hyn yn berthnasol i blant nad ydynt yn mynychu ysgol yn rheolaidd na'r rhai sy'n cael eu haddysgu gartref o ddewis.

## 8. Y swyddog lles addysg

8.1. Mae gan y swyddog lles addysg y cyfrifoldeb dros roi'r dyletswyddau statudol ar waith mewn perthynas â sicrhau presenoldeb yn yr ysgol. Mae gan y swyddog addysg ysgol ran arweiniol ar ran yr awdurdod lleol yn cefnogi presenoldeb yn yr ysgol ac yn cwrdd â staff yr ysgol yn rheolaidd ar y cyd gyda gweithio gyda theuluoedd, disgyblion ac asiantaethau statudol ac anstatudol er mwyn hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol yn rheolaidd.

8.2. Bydd y swyddog lles addysg yn archwilio'r rhesymau dros yr absenoldeb, yn cynnig arweiniad ac yn cynghori teuluoedd ynghylch gwasanaethau cefnogi ychwanegol os

oes angen, a chyfeirio ymlaen i asiantaethau lle mae hynny'n berthnasol. Bydd y swyddog lles addysg yn cefnogi ysgolion, disgyblion a rhieni drwy fynd i'r afael gydag unrhyw broblemau sy'n ymwneud â pheidio â mynychu'r ysgol a thrwy gynorthwyo i waredu unrhyw rwystrau gafodd eu hadnabod, bydd strategaethau'n cael eu rhoi ar waith er mwyn annog deilliannau positif.

8.3. Mae'r swyddog lles addysg yn cael ei reoli a'i ariannu'n ganolog, ac mae amser swyddog lles addysg yn cael ei neilltuo ar sail angen ar y cyd gyda swyddogion awdurdod lleol.

## 9. Cymorth i ysgolion

9.1. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cefnogi ysgolion i wella lefelau presenoldeb drwy ddarparu'r dogfennau perthnasol a sicrhau bod polisïau a chanllawiau yn cael eu cadw atynt, gan gynnwys canllawiau statudol a chanllawiau anstatudol.

9.2. Mae'r canlynol yn dangos rhestr o ddogfennau, nad ydynt yn gynhwysfawr, sy'n cynorthwyo ysgolion (gweler Atodiad 2):

- Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan (2011)
- Cynhwysiant a chefnogaeth disgybl - Llywodraeth Cymru (2016)
- Canllawiau ar godau Presenoldeb (2010)
- Rheoliadau Addysg (Cofrestriad Disgybl)(Cymru) 2010
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013
- Deddf Addysg 1996
- Plant sy'n colli addysg - Deddf Addysg ac Archwiliad 2006, adran 436A
- Addysgu gartref dewisol (adran 7, Deddf Addysg 1996)

9.3. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cefnogi ysgolion i greu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer yr holl ddysgwyr ac i ddarparu diwylliant ysgol gyfan sy'n hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol, a thrwy hynny sicrhau bod mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ym mhob ysgol.

## 10. Cyfrifoldebau ysgolion

10.1. Mae gan ysgolion ddyletswydd gofal statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae gan yr holl ysgolion o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bolisi presenoldeb eglur sy'n gosod allan sut mae presenoldeb yn cael ei reoli a'i fonitro. Dylai'r holl staff ysgol fael eu hyfforddi ynghylch presenoldeb a'u gwneud yn ymwybodol o bolisi presenoldeb yr ysgol.

10.2. Dylai ysgolion gyfeirio at yr adnodd awdurdod lleol a'r llawlyfr ar gyfer gwybodaeth am bresenoldeb. Mae hyn yn cynnwys yr holl ganllawiau perthnasol, gan gynnwys fframweithiau statudol ac enghreifftiau o arfer da.

10.3. Mae'n rhaid i ysgolion ddilyn y protocol y cytunwyd arno ar gyfer plant sy'n agored i Ofal Cymdeithasol Plant ac sydd ar y Gofrestr Gwarchod Plant.

10.4. Bydd ysgolion yn dilyn yr ymateb sy'n seiliedig ar yr ysgol ac sy'n raddedig o fewn y Gwasanaeth Lles Addysg.

10.5. Dylai ysgolion gyfathrebu unrhyw bryderon ynghylch presenoldeb a lles i'w swyddog lles addysg enwebedig. Dylai llywodraethwr enwebedig fod â chyfrifoldeb arweiniol dros fynychu, a dylai aelod hŷn o'r tîm arweinyddiaeth o fewn ysgolion hefyd gael cyfrifoldeb dros bresenoldeb a bod yn gysylltiedig gyda'r swyddog lles addysg.

## 11. Rôl rhieni/gofalwyr

11.1. Mae rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Disgwylir i rieni/gofalwyr adrodd am absenoldeb eu plentyn o'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb ac wrth ddychwelyd, darparu eglurhad ysgrifenedig. Gofynnir i rieni/gofalwyr osgoi cymryd gwyliau teuluol yn ystod y tymor, a gweithio gydag ysgolion ac asiantaethau eraill pan mae gan ddisgyblion broblemau o ran presenoldeb.

11.2. Yn ogystal â phresenoldeb, mae prydlondeb hefyd yr un mor bwysig. Os yw disgybl yn cyrraedd yr ysgol bum munud yn hwyr yn barhaus, bydd hyn yn arwain at golli dysgu. Os yw disgybl yn cyrraedd wedi i'r gofrestr gael ei chau, yna bydd hyn yn cyfrif fel absenoldeb anawdurdodedig a all, os bernir ei fod yn briodol, arwain at atgyfeiriad at y swyddog lles addysg.

11.3. Gall absenoldeb hefyd wneud plant yn agored i ymwneud â throsedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

11.4. Nid yn unig yw presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad yn bwysig, ond mae hefyd yn galluogi pobl ifanc i gynnal cyfeillgarwch positif, hyrwyddo lles a'u darparu gyda seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol.

11.5. Gall rhieni/gofalwyr gefnogi presenoldeb rheolaidd a phrydlon eu plant drwy:

- sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd yn yr ysgol ar amser bob dydd;
- sicrhau bod eu plentyn ond yn colli'r ysgol am resymau na ellir mo'u hosgoi neu y gellir eu cyfiawnhau, megis salwch neu ddyddiau o gadw arferion crefyddol;
- hysbysu'r ysgol cyn gynted â phosib o unrhyw absenoldeb a chadarnhau hyn yn ysgrifenedig pan mae'r plentyn yn dychwelyd i'r ysgol;
- peidio ag archebu gwyliau teuluol yn ystod y tymor; a
- siarad gyda'r ysgol os ydynt yn pryderu bod eu plentyn yn amharod i fynychu

## 12. Gweithio amlasiantaethol

12.1. Mae swyddogion lles addysg yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd a bydd hyn yn sicrhau y bydd y ddau yn gweithio gyda'i gilydd ac yn adnabod disgyblion bregus ar y cam cyntaf posib. Mae swyddogion lles addysg yn gweithio o fewn timau cymorth cynnar mewn hybiau cymunedol, mewn mannau sydd wedi'u cyd-leoli yn y Fwrdeistref Sirol, gallant ddarparu dull holistaidd o sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae gweithio amlasiantaethol yn allweddol ar gyfer sicrhau bod teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth yn seiliedig ar angen. Mae hybiau cymunedol yn cynnwys swyddogion lles addysg, swyddogion ymgysylltu gyda theuluoedd, athrawon cefnogi ymddygiad, swyddogion cynhwysiant, a gweithwyr ieuenctid.

12.2. Ymgymerir â phatrolau triwantiaeth rheolaidd, ac mae'r swyddogion lles addysg yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu lleol a Heddlu Trafnidiaeth Prydain. Mae

gwasanaethau eraill megis Cyfiawnder i'r Ifanc, gwasanaethau iechyd, cymdeithasau tai, gwasanaethau statudol a mudiadau gwirfoddol hefyd yn ymwneud yn rhagweithiol drwy weithio gyda'r swyddogion lles addysg i'w cynorthwyo i ddatrys diffyg presenoldeb disgyblion yn yr ysgol a chefnogi teuluoedd. Gall heddweision gynnal gwiriadau lles ar ddisgyblion a'u teuluoedd lle nad oes unrhyw gyfathrebiadau wedi'u derbyn.

## 13. Hysbysiadau cosb benodol

13.1. Mae hysbysiadau cosb benodol (FPNau) yn caniatáu ysgolion i ddarparu hysbysiadau i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sydd yn absennol o'r ysgol heb awdurdodiad. Daeth Hysbysiadau Cosb Benodol i rym ym mis Medi 2014 o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd (h.y. Rheoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013). Mae Cod Ymddygiad wedi'i ddyfeisio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd cyflwyno hysbysiadau cosb benodol yn eistedd gyda'r Prif Swyddog Addysg Lles mewn ymateb i geisiadau gan benaethiaid, cynrychiolwyr enwebedig neu swyddogion yr heddlu. Rhagwelir y bydd hysbysiadau cosb benodol yn cael eu defnyddio i wella presenoldeb ac atal unrhyw absenoldebau diangen o'r ysgol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- isafswm o 10 absenoldeb anawdurdodedig yn y tymor presennol;
- isafswm o 10 sesiwn o fod yn hwyr wedi cau'r gofrestr;
- absenoldeb anawdurdodedig oherwydd gwyliau yn ystod y tymor ysgol;
- disgyblion yn dod i sylw'r heddlu'n rheolaidd yn ystod oriau ysgol gyda rheswm cyfiawn; a
- Rhieni/gofalwyr wedi methu ag ymgysylltu gydag ysgolion/y Gwasanaeth Lles Addysg, ond lle nad yw sancsiynau'r llys wedi eu rhoi ar waith.

13.2. Bydd y Prif Swyddog Lles Addysg yn ystyried y canlynol wrth ystyried p'un a ellir cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodol:

- lefel yr absenoldeb;
- unrhyw ystyriaethau cydraddoldeb;
- datganiad o anghenion addysgol arbennig;
- hanes o bresenoldeb;
- amddiffyniadau a allai fod ar gael;
- lefel o ymwneud gan y rhiant; ac
- unrhyw effaith andwyol y bydd dirwy yn ei chael ar les y teulu.

13.3. Ni ellir awdurdodi tynnu Hysbysiad Cosb Benodol yn ei ôl lle mae wedi'i brofi:

- bod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno i'r person anghywir i gyfeiriad anghywir;
- nad oedd yr hysbysiad yn cydymffurfio gyda'r cod ymddygiad;
- bod tystiolaeth yn dangos na ddylai'r hysbysiad fod wedi cael ei gyflwyno (e.e. tystiolaeth feddygol wedi'i chyflwyno); ac
- amgylchiadau sy'n gofyn am iddo gael ei dynnu'n ôl.

13.4. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n rholi Hysbysiad Cosb Benodol ar waith yn cael ei amlinellu yn:

- Adrannau 444A a 444B Deddf Addysg 1996

- Deddf Addysg ac Archwiliadau 2006
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (yr hawl i addysg)

13.5. Mae FPN yn £60 os telir o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad, gan godi i £120 os nad yw'n cael ei dalu o fewn 28 diwrnod. Os nad yw'r gosb yn cael ei dalu'n llawn erbyn diwedd y 42 diwrnod, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol naill ai erlyn y rhieni/gofalwyr ar gyfer y drosedd neu dynnu'r hysbysiad yn ei ôl.

**14. Gwyliau yn ystod y tymor**

14.1. Mae Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod yr effaith y gall absenoldeb o'r ysgol ei gael ar gyflawniad addysgol. Mae gan Benaethiaid y disgresiwn o awdurdodi hyd at 10 diwrnod o dan Reoliadau Addysg (Cofrestriad Disgybl)(Cymru) 2010. Nid oes gan rieni yr hawl awtomatig i dynnu disgybl o'r ysgol ar gyfer gwyliau, ac o dan y Rheoliadau, mae'n rhaid gwneud cais am ganiatâd ymlaen llaw.

**15. Casglu data, targedau presenoldeb ac archwilio**

15.1. Mae ysgolion yn darparu data presenoldeb drwy System Rheoli Gwybodaeth eu hysgol. Darperir data presenoldeb i Lywodraeth Cymru yn ogystal ac fe'i defnyddir yn sail i ddangosyddion perfformiad cenedlaethol. Mae gan yr awdurdod lleol fynediad at ddata a rennir fesul clwstwr. Gosodir targedau presenoldeb ar gyfer ysgolion gan gyrff llywodraethu ysgol.

15.2. Ymgymerir ag archwiliadau presenoldeb gan yr holl ysgolion mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg. Bydd nodweddion allweddol yn cynnwys:

- archwilio gweithdrefnau presennol;
- archwilio gwybodaeth am bresenoldeb;
- dogfennaeth berthnasol a pholisïau ysgol;
- asesu'r math o gyfathrebiadau gyda rhieni a lefelau'r cyfathrebiadau;
- cyfweld staff a disgyblion;
- dadansoddi data presenoldeb;
- ystyried y strategaethau ysgol a ddefnyddir i hyrwyddo presenoldeb a rhannu arfer da;a
- gwerthuso effeithiolrwydd ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cefnogi.

**16. Hyfforddiant a chefnogaeth**

16.1. Bydd yr holl staff sydd â chyfrifoldeb dros bresenoldeb mewn ysgolion yn derbyn hyfforddiant priodol gan gynnwys y defnydd cywir o godau, herio rhieni mewn modd priodol, mewnbynnu data yn fanwl gywir, allforio data a hefyd gallu defnyddio a bod â gwybodaeth lawn ynghylch Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion.

**17. Dathlu presenoldeb da ac sydd wedi gwella**

17.1. Anogir ysgolion i hyrwyddo presenoldeb da drwy ddefnyddio amrywiaeth o fentrau ar lefel ysgol gyfan, grŵp blwyddyn, dosbarth neu ddisgybl unigol.

17.2. Gall hyn gynnwys tystysgrifau, beiros neu wobrau megis llyfrau. Ystyrir cyflawniadau sy'n cael eu llongyfarch mewn gwasanaethau boreol yn arbennig o effeithiol. Dylai pob ysgol arddangos eu deunyddiau marchnata presenoldeb yn briodol mewn cynteddau, ar wefannau ysgol, ystafelloedd dosbarth, waliau a gellir defnyddio baneri ar ymylon tir yr ysgol. Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth a phwysigrwydd presenoldeb da ar gyfer disgyblion, addysgwyr, rhieni ac ymwelwyr i'r ysgol.

17.3. Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau ei bod yn cymryd darpariaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i ystyriaeth ac yn peidio â rhoi'r disgyblion hynny sydd ag anabledd neu gyflwr meddygol o dan anfantais, na gwahaniaethu yn eu herbyn. Golyga hyn na ddylai person ifanc gyda chofnod presenoldeb o lai na 100% oherwydd rhesymau iechyd gael ei effeithio'n negyddol o safbwynt systemau gwobrwyo'r ysgol.

## 18. Plant teithwyr

18.1. Byddwn yn gweithio'n agos gyda theuluoedd plant i Deithwyr er mwyn sicrhau eu bod yn mynychu'r ysgol. Anogir ysgolion yn arbennig i:

- greu diwylliant cynhwysol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac sy'n cydnabod amrywiaeth diwylliannol a gwahaniaeth;
- dangos disgwyliadau uchel o ran presenoldeb gyda'r holl ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru;
- ymateb yn syth i absenoldebau drwy ymholiadau ffôn neu ymholiadau eraill yn syth;
- cyfeirio unrhyw absenoldebau parhaus neu sy'n cael eu hailadadrodd at y Swyddog Lles Addysg;
- datblygu strategaethau i gefnogi disgyblion gydag anawsterau llythrennedd neu ddysgu;
- cefnogi cysondeb addysgol tra mae plant yn teithio;
- rhoi cefnogaeth ychwanegol os oes angen i blant teithwyr sy'n cyrraedd yr ysgol am y tro cyntaf;
- sicrhau cefnogaeth briodol yn ystod cyfnod pontio (er enghraifft o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3; a
- cheisio cyngor priodol gan yr awdurdod lleol os oes angen.

**Atodiad 2**

Mae hyn yn dangos y dolenni i'r canllawiau a ddefnyddiwyd yn y ddogfen hon, yn ogystal â dolenni ychwanegol defnyddiol.

- Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan (2011)
  https://gov.wales/all-wales-attendance-framework

- Cynhwysiant a chefnogaeth disgybl - Llywodraeth Cymru (2016)
  https://gov.wales/inclusion-and-pupil-support-guidance-schools-and-local-authorities

- Canllawiau ar godau Presenoldeb (2010)
  https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/guidance-on-school-attendance-codes.pdf

- Rheoliadau Addysg (Cofrestriad Disgybl)(Cymru) 2010
  https://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/1954/contents/made

- Deddf Addysg 1996 - Adran 444
  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/444

- Deddf Addysg 1996 - Adran 437
  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/437

- Rheoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013
  https://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/1983/contents/made

- Plant sy'n methu addysg - canllawiau Llywodraeth Cymru 2017
  https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-09/statutory-guidance-help-prevent-children-young-people-missing-education.pdf

- Deddf Addysg ac Archwiliadau 2006
  https://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/2543/contents/made

- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau plentyn - UNCRC - erthyglau 28)
  https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/schedule/part/1/crossheading/article-28

- Cod Ymddygiad Cosb Benodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2014

FPN Code of Conduct - New Dec